Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 19 November 2025 at The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Ian Scott (Chair), Pam Erasmus, Francesca O'Brien, Laura Gilbert and Will Thomas.

**Officers Present:** Kerry Grabham – CO and Ian Hughes – CSO

**Public Attendance**; Emma McNamara and Michael Eames

**CSD2511-01** **Apologies:** Cllrs Trevor Carr, Phil Keeton, and Sara Keeton. The Chair, Cllr Scott noted that he expected Prof. Lella Nouri of Swansea University to attend in relation to the Flip the Streets Initiative (Agenda item **CSD2511-07** refers).

**CSD2511-02** **Declarations of Interest**

None

**CSD2511-03** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**

To approve the minutes of the meeting held on 15th October 2025 as a true record.

**RESOLVED** To approve the minutes of the meeting held on 15th October 2025 as a true record

**CSD2511-04** **Outstanding Actions from Previous Meetings**

The CSO outlined outstanding actions.

**RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.

Mumbles Community Council

**CSD2511-05** **Budget Monitoring Reports to 30/09/2025**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon who had previously circulated the documents to councillors.
No queries were raised with either the RFO or CSO prior to the meeting in relation to the reports.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 30th September 2025.

**CSD2511-06** **Budget 2026/27**

The RFO had circulated details of draft proposals for 2026/27 prior to the meeting, together with four budget proposals that had been submitted.

The Chair, Cllr Scott outlined the draft proposals to the committee highlighting the additional cost to maintain Mumbles Skatepark due to vandalism. These were accepted by the committee.
The four budget proposals were outlined and related to creating a function room at Underhill, installing additional bollards at Underhill, improving access to Oystermouth Cemetery from Slade Road and improving access at Castle Field

**RESOLVED** to discuss the above budget proposals in detail at a future time if appropriate.

**RESOLVED** that the Draft Budget 2026/27 of £228,500 be recommended to Council at the budget meeting to be held in January 2026.

Michael Eames joined the meeting at 6.40pm

**CSD2511-07** **Flip the Streets Initiative**

Professor Nouri had provided background information in relation to the Flip the Streets Initiative which had been circulated to committee members prior to the meeting. It had been hoped that Prof Nouri would be in attendance to provide additional information on the project.

The Chair, Cllr Scott, invited Emma McNamara to address the committee in relation to agenda items. Ms McNamara stated that she is actively involved in the West Cross Community, participating in The Story of Mumbles and The West Cross Tidy Team. Ms McNamara wished to address concerns pertinent to this agenda item (Flip The Streets) and other agenda items relating to vandalism at Mumbles Skatepark and other areas within MCC.
Ms McNamara paid tribute to councillors within the Mumbles Ward who had adopted initiatives including the painting of boxes on pavements. Ms McNamara believed that more should be done within her ward.
The Chair, Cllr Scott thanked Ms McNamara for her contribution and committee members provided details of initiatives carried out by West Cross Councillors including wildflower and bulb planting.
Ms McNamara was advised by Cllr Scott to make representations directly to her ward councillors.

**CSD2511-08** **Vandalism (graffiti) at Mumbles Skate Park**

The CO provided an outline of developments, including a summary of initiatives already carried out. Noticeboards and bins ahd been cleaned of graffiti but the removal of graffiti from the skateboarding surfaces is more complex due to the risk of treated surfaces being damages through the application of unsuitable cleaning products.
The CO further reminded the committee of the recent quote that was brought forward to be considered, along with a financial contribution from MSA which was not accepted by Council in October.

The CO continues to be in liaison with SCC over the issue of graffiti and Cllr Phil Keeton has carried out cleaning work with specialised products on 'test areas'.

**RESOLVED**: Awaits update from Cllr Keeton on cleaning of graffiti on test areas.

**ACTION:** The CO to further liaise with Flip the Streets on removing graffiti from Mumbles Skatepark.

**RESOLVED**: Subject to The CO obtaining additional information from SCC a recommendation for additional funding to remove graffiti to be made to Full Council at December Meeting.

Cllr O'Brien left the meeting at 7.18pm

Mumbles Community Council

**CSD2511-09** **CCTV at Mumbles Skate Park (Update)**

The Committee discussed the use of cameras and the necessary maintenance of equipment together with the retrieval of data following a reported incident.
Cllr Thomas stated that he had liaised with SCC and that a camera post currently located at Underhill could be re-located to Mumbles Skatepark. The level of anti-social envisaged at Underhill following its redevelopment has been negligible and the pole installed to accommodate a surveillance camera at Underhill would probably be utilised more at Mumbles Skatepark. This would be substantially cheaper than purchasing a new camera pole.
Cllr Thomas confirmed that he had consulted SCC in relation to legalities concerning the use of any such camera.

**RESOLVED** Cllr Thomas to continue to liaise with SCC and CO in relation to transferring the camera pole to Mumbles Skatepark, the purchase/hire of a suitable surveillance camera and issues connected to the on-going maintenance of the equipment

**RECOMMENDED** That up to £1,000 be made available through the virement of budget funds for the relocation of a camera pole from Underhill Park to Mumbles Skatepark and the purchase/hire of surveillance equipment.

Cllr O'Brien returned to the meeting at 7.27pm.

**CSD2511-10** **Neighbourhood Alert Initiative**

The Chair, Cllr Scott outlined key aspects from The Neighbourhood Alert Initiative including text alerts being sent on mobile phoned from Soth Wales Police.

Cllr Scott invited Michael to comment on this or any other agenda item.
Michael Eames whilst noting what had already been debated regarding vandalism and in particular graffiti at Mumbles Skatepark, pointed out that since graffiti had commenced at the skatepark, the amount of graffiti had spread along the promenade, particularly towards the direction of Mumbles Pier.

Cllr Scott noted Michael Eames' concerns and updated the committee that the relevant team within SCC were addressing the situation

Meeting finished 7.33pm

Next Meeting 15th January 2026

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025 yng Nghanolfan Ostreme am 6.30pm a thrwy gyfrwng TEAMS

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ian Scott (Cadeirydd), Pam Erasmus, Francesca O'Brien, Laura Gilbert a Will Thomas.

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Prif Swyddog ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol**; Emma McNamara a Michael Eames

**CSD2511-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Carr, Phil Keeton, a Sara Keeton. Nododd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, ei fod yn disgwyl i'r Athro Lella Nouri o Brifysgol Abertawe fod yn bresennol mewn perthynas â'r Fenter Flip the Streets (eitem **CSD2511-07** ar yr Agenda.

**CSD2511-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CSD2511-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025 fel cofnod cywir

**CSD2511-04**

**Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol**

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD** bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau'

**CSD2511-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2025**

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i'r cynghorwyr yn flaenorol.
Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2025.

**CSD2511-06** **Cyllideb 2026–2027**

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi dosbarthu manylion cynigion drafft ar gyfer 2026–2027 cyn y cyfarfod, ynghyd â phedwar cynnig cyllideb a oedd wedi'u cyflwyno.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, y cynigion drafft i'r pwyllgor gan dynnu sylw at y gost ychwanegol i gynnal Parc Sglefrio'r Mwmbwls oherwydd fandaliaeth. Cafodd y rhain eu derbyn gan y pwyllgor.
Amlinellwyd y pedwar cynnig cyllidebol ac roeddent yn gysylltiedig â chreu ystafell digwyddiadau yn Underhill, gosod bolardiau ychwanegol yn Underhill, gwella mynediad i Fynwent Ystumllwynarth o Slade Road a gwella mynediad ym maes y castell

**PENDERFYNWYD** trafod y cynigion cyllideb uchod yn fanwl yn y dyfodol os yw'n briodol.

**PENDERFYNWYD** argymell Cyllideb Ddrafft 2026-2027 o £228,500 i'r cyngor yn y cyfarfod cyllideb a gynhelir ym mis Ionawr 2026.

Ymunodd Michael Eames â'r cyfarfod am 6.40pm

CSD2511-07

## Menter 'Flip the Streets'

Roedd yr Athro Nouri wedi darparu gwybodaeth gefndirol mewn perthynas â'r Fenter Flip the Streets a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Gobeithiwyd y byddai'r Athro Nouri yn bresennol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y prosiect.

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, i Emma McNamara i annerch y pwyllgor mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda. Dywedodd Ms McNamara ei bod hi'n cymryd rhan weithredol yng Nghymuned West Cross, ac yn Stori'r Mwmbwls a Thîm Taclus West Cross. Roedd Ms McNamara yn dymuno mynd i'r afael â phryderon sy'n berthnasol i'r eitem agenda hon (Flip The Streets) ac eitemau agenda eraill yn ymwneud â fandaliaeth ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls ac ardaloedd eraill o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
Rhoddodd Ms McNamara deyrnged i gynghorwyr yn ward y Mwmbwls a oedd wedi mabwysiadu mentrau gan gynnwys peintio blychau ar balmentydd. Roedd Ms McNamara yn credu y dylid gwneud mwy o fewn ardal ei ward.
Diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, i Ms McNamara am ei chyfraniad a rhoddodd aelodau'r pwyllgor fanylion am fentrau a gynhaliwyd gan gynghorwyr West Cross gan gynnwys plannu blodau gwyllt a bylbiau.
Cynghorwyd Ms McNamara gan y Cynghorydd Scott i wneud sylwadau'n uniongyrchol i gynghorwyr ei ward.

CSD2511-08

## Fandaliaeth (graffiti) ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls

Darparodd y Prif Swyddog amlinelliad o'r datblygiadau, gan gynnwys crynodeb o'r mentrau sydd eisoes wedi'u gweithredu. Mae graffiti wedi'i lanhau o fyrddau hysbysebion a biniau ond mae cael gwared ar graffiti o arwynebau sglefrfyrddio yn fwy cymhleth oherwydd y risg y bydd arwynebau wedi'u trin yn cael eu difrodi trwy ddefnyddio cynhyrchion glanhau anaddas.

Atgoffodd y Prif Swyddog y pwyllgor ymhellach o'r dyfynbris a gyflwynwyd i'w ystyried yn ddiweddar, ynghyd â chyfraniad ariannol gan Gymdeithas Parc Sglefrio'r Mwmbwls na chafodd ei dderbyn gan y cyngor ym mis Hydref.

Mae'r Prif Swyddog yn parhau i fod mewn cysylltiad â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch problem graffiti ac mae'r Cynghorydd Phil Keeton wedi cynnal gwaith glanhau gyda chynhyrchion arbenigol ar 'ardaloedd prawf'.

**PENDERFYNWYD**: Aros am ddiweddariad gan y Cynghorydd Keeton ar lanhau ardaloedd prawf â graffiti arnynt.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd y Prif Swyddog yn cysylltu ymhellach â Flip the Streets i gael gwared ar graffiti o Barc Sglefrio'r Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD**: Ar yr amod y caiff y Prif Swyddog wybodaeth ychwanegol gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, bydd argymhelliad am gyllid ychwanegol i gael gwared ar graffiti yn cael ei wneud i'r cyngor llawn yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Ymadawodd y Cynghorydd O'Brien â'r cyfarfod am 7.18pm

**Teledu cylch cyfyng ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls (yr wybodaeth ddiweddaraf)**

**CSD2511-09** Trafododd y pwyllgor y defnydd o gamerâu a'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar offer ynghyd ag adfer data yn dilyn digwyddiad a adroddwyd amdano.
Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a bod modd adleoli postyn camera sydd ar hyn o bryd yn Underhill i Barc Sglefrio'r Mwmbwls. Mae lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a welir yn Underhill yn dilyn ei ailddatblygu wedi bod yn ddibwys ac mae'n debyg y byddai'r polyn a osodwyd ar gyfer camera gwyliadwriaeth yn Underhill yn fwy defnyddiol ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls. Byddai hyn yn sylweddol rhatach na phrynu polyn camera newydd.
Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi ymgynghori â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch materion cyfreithiol yn ymwneud â defnyddio unrhyw gamera o'r fath.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r Cynghorydd Thomas barhau i gysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Prif Swyddog ynghylch trosglwyddo'r polyn camera i Barc Sglefrio'r Mwmbwls, prynu/llogi camera gwyliadwriaeth addas a materion sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw parhaus yr offer

**ARGYMHELLWYD** Y dylid darparu hyd at £1,000 trwy drosglwyddo arian cyllideb ar gyfer adleoli polyn camera o Barc Underhill i Barc Sglefrio'r Mwmbwls a phrynu/llogi offer gwyliadwriaeth.

Dychwelodd y Cynghorydd O'Brien i'r cyfarfod am 7.27pm.

CSD2511-10

## Menter Rhybudd Cymunedol

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, agweddau allweddol o'r Fenter Rhybudd Cymunedol gan gynnwys rhybuddion neges testun i'w hanfon i ffonau symudol gan Heddlu De Cymru.

Gwahoddwyd Michael gan y Cynghorydd Scott i wneud sylwadau ar hyn neu unrhyw eitem arall ar yr agenda.
Wrth nodi'r hyn a oedd eisoes wedi'i drafod ynghylch fandaliaeth ac yn benodol graffiti ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls, nododd Michael Eames, ers i graffiti ddechrau yn y parc sglefrio, fod graffiti wedi lledu ar hyd y promenâd, yn enwedig tuag at Bier y Mwmbwls.

Nododd y Cynghorydd Scott bryderon Michael Eames a diweddarodd y pwyllgor fod y tîm perthnasol o fewn Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn mynd i'r afael â'r sefyllfa

Daeth y cyfarfod i ben am 7.33pm

Cyfarfod nesaf 15 Ionawr 2026